

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# IViTi Lighting

Cafodd IViTi Lighting ein sefydlu yn 2011 i gynhyrchu goleuadau LED a fyddai'n herio'r farchnad oleuadau gonfensiynol. Ers 2014, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, llwyddodd y cwmni i ddatblygu ei syniadau diweddaraf yn brototeipiau ar gyfer y farchnad fasnachol ac i ddefnyddwyr. Gyda nifer o gynnyrch newydd i'w rhyddhau ddiwedd 2015, mae'r cwmni ar ei ffordd i wneud ei farc yn y farchnad oleuadau fyd-eang.

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Defnyddiodd y cwmni goleuadau o Gaerdydd gymorth ariannol Llywodraeth Cymru i helpu i ddatblygu ei gynnyrch. Y cyntaf o'r cynnyrch newydd yw'r iViTi ON, bwlb golau a fydd yn dal i oleuo am hyd at dair awr ar ôl i'r cyflenwad trydan ddiffodd. Y dechnoleg ddiweddaraf i gael ei chynnwys mewn nifer o gynnyrch goleuo yw technoleg AdrON. Bydd y cynnyrch arloesol hyn yn cronni ynni o'r grid cenedlaethol pan nad oes lawer o alw amdano a phan mae'n rhatach ac yn defnyddio'r ynni yn ystod yr oriau brig i gynhyrchu goleuni. Mae hyn nid yn unig o fantais drwy dorri costau ond mae hefyd yn lleihau'r pwysau ar y grid cenedlaethol gan arwain at losgi llai o danwydd ffosil.

Prif ddarpar gwsmeriaid IVTi yw datblygwyr adeiladau preifat a masnachol yn ogystal a busnesau a chartrefi unigol.

Mae Llywodraeth Cymru, ers 2014, wedi cynnig cyngor arbenigol drwy ei raglen ariannu SMART yn ogystal â grantiau i ddatblygu cynnyrch iTiVi er mwyn eu cyflwyno ar y farchnad. Ers hynny, mae staff iViTi wedi cynyddu ac mae wedi helpu i greu nifer o swyddi yn ei sefydliadau partner.

Gyda help Llywodraeth Cymru, sicrhawyd hawliau eiddo deallusol byd-eang yn y dechnoleg ar gyfer y ddau gynnyrch. Mae'r diddordeb sydd wedi codi ynddyn nhw'n wirioneddol fyd-eang, gan gynnwys o Dde Affrica, Bangaladesh ac Awstralia. Disgwylir y bydd cytundebau i anfon y cynnyrch dramor ar y bwrdd erbyn pan ddaw cynnyrch AdrON ar y farchnad yn ddiweddarach eleni.

Meddai Trefor Jones, Cyfarwyddwr iViTi Lighting: "Flwyddyn yn ôl, dim ond syniadau oedd y cynnyrch hyn. Nawr, rydyn ni'n paratoi i'w rhoi ar y farchnad. Roedden ni'n ofni y byddai hyn yn broses hir, ond, gyda chymorth ariannol a chefnogaeth Llywodraeth Cymru, rydyn ni wedi gallu gwneud hynny'n llawer cynt na'r disgwyl.

Bydd ein cynnyrch AdrON cyntaf yn cael eu danfon yn chwarter olaf 2015 i farchnadoedd rhyngwladol yn ogystal ag ar y farchnad yma, gartref. Rydyn ni'n falch iawn o'r cynnyrch hyn sy'n gost effeithiol ac, yr un pryd, yn gallu bod o help gwirioneddol i'r amgylchedd. Mae 2015 yn addo bod yn flwyddyn fawr i iViTi".

Busnes Cymru
Business Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

**Ebost:** businesssupport@wales.gsi.gov.uk

**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk

**Ffôn:** 03000 6 03000



WG22758 / © Hawlfraint y Goron 2015

OGL